

Y
Comisiwn
Etholiadol

The
Electoral
Commission

Llawlyfr y Cyfryngau

Etholiadau'r Senedd

Dydd Iau 6 Mai 2021

Cysylltiadau'r cyfryngau ac adnoddau

Cysylltiadau'r cyfryngau

Ein sianeli

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru

[Hoffwch ni ar Facebook](#)

Ella Downing

[Darllenwch ein blog](#)

Ffôn: 0292 034 6824

Dilynwch ni ar Twitter

edowning@electoralcommission.org.uk

@ElectoralWales

Oriau y tu allan i'r swyddfa: 07789 920 414

[Dilynwch ni ar LinkedIn](#)

Gwefannau

www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio

Dyma'r wefan lle gall y cyhoedd gofrestru i bleidleisio ar-lein. Mae'n gyflym ac yn hawdd ei defnyddio. Ers ei lansio ym mis Mehefin 2014, mae miliynau o geisiadau i gofrestru i bleidleisio wedi cael eu cyflwyno. Lle y bo'n bosibl, dylid cyfeirio at y wefan hon wrth sôn am yr etholiad yn y cyfryngau er mwyn sicrhau bod aelodau'r cyhoedd yn gwybod ble y gallant gofrestru.

www.comisiwnetholiadol.org.uk

Mae gwefan y Comisiwn Etholiadol yn cynnwys adran benodedig ar gyfer newyddiadurwyr sy'n cynnwys ei ddatganiadau i'r wasg. Mae'n cynnwys gwybodaeth am roddion i bleidiau gwleidyddol yn y cyfnod cyn yr etholiad ac ardal canllawiau gyda gwybodaeth i ymgeiswyr a'r rhai sy'n gweinyddu'r etholiad.

Mae'r wefan hefyd yn rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd am sut i gofrestru a phleidleisio, gan gynnwys ffurflenni y gallant eu hargraffu i gofrestru a gwneud cais i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy. Mae'n cynnwys cyfleuster chwilio am god post sy'n galluogi pobl i ddod o hyd i fanylion cyswllt eu swyddfa cofrestru etholiadol leol yn ogystal â manylion am orsafoedd pleidleisio ac ymgeiswyr.

Cynnwys

Logisteg	4
Amserlen etholiadau'r Senedd.....	6
Ymgeiswyr	7
Ymgyrchu yn yr etholiad	9
Terfynau gwariant a rheolau ar dderbyn rhoddion.....	10
Ymgyrchu gan bleidiau gwleidyddol	14
Rheolau ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau	16
Pleidleiswyr	20
Cofrestru i bleidleisio	20
Ymwybyddiaeth y cyhoedd.....	21
Y broses bleidleisio.....	24
Y broses gyfrif	29
Twyll Etholiadol	32

Logisteg

Pa etholiadau sy'n cael eu cynnal ar 6 Mai?

Bydd etholiadau'r Senedd yn cael eu cynnal ledled Cymru ddydd Iau 6 Mai 2021. Caiff yr etholiadau hyn eu cynnal ar yr un pryd ag etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd.

Mae gan y Senedd bwerau i wneud cyfreithiau i Gymru ar amrywiaeth o feysydd gan gynnwys iechyd, yr economi, addysg, tai, rhai trethi a chludiant.

Mae'r Senedd yn cynnwys hyd at 60 o Aelodau'r Senedd (ASau) a gaiff eu hethol gan bobl Cymru i'w cynrychioli. Mae 40 o ASau yn cynrychioli etholaethau yng Nghymru ac 20 o ASau yn cynrychioli pum rhanbarth: Gogledd Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gorllewin De Cymru, Dwyrain De Cymru, a Chanol De Cymru.

Gallwch bleidleisio yn etholiadau'r Senedd os ydych yn breswlydd cymwys yng Nghymru a fydd yn 16 oed neu drosodd ddydd Iau 6 Mai. Gweler tudalen 20 am ragor o fanylion.

Rolau a chyfrifoldebau yn yr etholiad

Swyddogion Cofrestru Etholiadol

Mae Swyddogion Cofrestru Etholiadol (EROs yn Saesneg) yn gyfrifol am baratoi a chynnal y cofrestrau etholiadol a'r rhestr o bleidleiswyr absennol yn eu hardal. Rhaid iddynt sicrhau bod y cofrestrau etholiadol mor gywir a chyflawn â phosibl.

Swyddog Canlyniadau Etholaethol

Mae'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol (a elwir weithiau yn Saesneg yn CRO) yn gyfrifol am:

- weinyddu enwebiadau ymgeiswyr yn yr etholaeth a ymleddir
- trefn cynnal yr etholiad
- cyfrif y pleidleisiau ar gyfer yr etholiad etholaethol a'r rhan honno o'r etholiad rhanbarthol a gaiff ei chynnwys yn yr etholaeth.

Mae'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol nid yn unig yn gyfrifol am gynnal etholiad y Senedd yn ei etholaeth, ond hefyd am elfennau cyfunol yr etholiad.

Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol

Mae pob un o'r pum Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol (a elwir weithiau yn Saesneg yn RROs) yn gyfrifol am:

- gyhoeddi'r hysbysiad etholiad ar gyfer yr etholiad rhanbarthol
- gweinyddu'r broses enwebu ar gyfer yr etholiad rhanbarthol
- coladu a chyfrifo nifer y pleidleisiau a roddwyd i bob ymgeisydd unigol a phlaid wleidyddol;
- datgan y canlyniad rhanbarthol.

Bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hefyd yn Swyddog Canlyniadau Etholaethol a ddynodir gan Weinidogion Cymru.

Swyddogion Llywyddu

Penodir Swyddogion Llywyddu gan Swyddogion Canlyniadau perthnasol i fod yn gyfrifol am orsafoedd pleidleisio. Bydd y dyletswyddau'n cynnwys trefnu cynllun yr orsaf pleidleisio, goruchwyllo clercod pleidleisio, rhoi papurau pleidleisio, helpu pleidleiswyr, rhoi cyfrif am bob papur pleidleisio a sicrhau y caiff blychau pleidleisio eu cludo'n ddiogel i leoliad y cyfrif.

Y Comisiwn Etholiadol

Y Comisiwn Etholiadol yw'r corff annibynnol sy'n goruchwyllo etholiadau ac yn rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn y DU. Rydym yn gweithio i hyrwyddo hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd a sicrhau ei huniondeb. Ein rôl yn yr etholiadau hyn yw:

- llunio canllawiau ar gyfer Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol, pennu safonau perfformiad a rhoi gwybod pa mor dda y mae gweinyddwyr etholiadol yn ei wneud yn erbyn y safonau hyn
- llunio canllawiau ar gyfer ymgeiswyr sy'n sefyll etholiad a'u hasiantiaid
- llunio canllawiau ar gyfer pleidiau sy'n ymgyrchu yn yr etholiad
- llunio canllawiau ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy'n ymgyrchu yn yr etholiad
- cofrestru pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau
- codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r etholiadau a sut i gymryd rhan ynddynt
- rhoi gwybod am y drefn o gynnal yr etholiad
- cyhoeddi manylion ynghylch ble y mae pleidiau gwleidyddol yn cael eu harian a sut y maent yn ei wario.

Amserlen etholiadau'r Senedd

Digwyddiad	Dyddiad (dyddiad cau os nad canol nos yw hwnnw)
Cyhoeddi hysbysiad etholiad	Dydd Llun 29 Mawrth fan bellaf
Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno papurau enwebu	Ar unrhyw ddiwrnod gwaith, erbyn 4pm ddydd Iau 8 Ebrill fan bellaf
Y dyddiad cau ar gyfer tynnu enwebiadau yn ôl	4pm ddydd Iau 8 Ebrill
Cyhoeddi datganiad ynghylch y personau a enwebwyd	Erbyn 4pm ddydd Gwener 9 Ebrill fan bellaf
Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i gofrestru i bleidleisio	Dydd Llun 19 Ebrill
Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i bleidleisio drwy'r post, gwneud cais am bleidlais bost drwy ddirprwy, ac ar gyfer newidiadau i bleidleisiau post neu bleidleisiau drwy ddirprwy sy'n bodoli eisoes	5pm ddydd Mawrth 20 Ebrill
Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau newydd i bleidleisio drwy ddirprwy	5pm ddydd Mawrth 27 Ebrill
Cyhoeddi hysbysiad etholiad	4pm ddydd Gwener 9 Ebrill
Diwrnod pleidleisio	7am i 10pm ddydd Iau 6 Mai
Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais bost newydd yn lle pleidlais bost a ddifethwyd neu a gollwyd	5pm ddydd Iau 6 Mai
Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau i fwrw pleidlais frys drwy ddirprwy	5pm ddydd Iau 6 Mai

Ymgeiswyr

Beth yw'r mathau gwahanol o ymgeisydd yn etholiad y Senedd?

- **Ymgeiswyr etholaethol** yw ymgeiswyr sy'n sefyll etholiad yn un o'r 40 o etholaethau yng Nghymru.
- **Ymgeiswyr rhestr plaid ranbarthol** yw ymgeiswyr sy'n sefyll ar restr plaid am un o'r 20 o seddi ranbarthol yng Nghymru. Gall plaid restru hyd at 12 o ymgeiswyr ranbarthol ym mhob un o'r pum ranbarth.
- Gall **ymgeiswyr ranbarthol annibynnol**, nad ydynt yn sefyll ar ran plaid, sefyll etholiad yn un o'r pum ranbarth a'r 40 o etholaethau yng Nghymru.

Gall ymgeisydd sefyll ar gyfer etholaeth a ranbarth, cyhyd â bod yr etholaeth o fewn y ranbarth. Os bydd yn gwneud hyn, rhaid iddo sefyll dros yr un blaid yn y ddau etholiad, neu fod yn annibynnol yn y ddau. Os caiff ei ethol yn yr etholiad etholaethol, caiff ei enw ei anwybyddu wrth ddyrannu seddi ranbarthol. Ni all rhywun sefyll mewn mwy nag un etholaeth neu fwy nag un ranbarth.

Pwy all ddod yn ymgeisydd?

Rhaid i unrhyw un sydd am sefyll yn etholiad y Senedd:

- fod yn 18 oed o leiaf ar ddiwrnod ei enwebiad;
- bod yn ddinesydd Prydeinig, dinesydd cymwys o'r Gymanwlad, dinesydd o un o aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd neu'n ddinesydd tramor cymwys.

Nid yw'n ofynnol i ymgeisydd yn etholiad y Senedd gael ei gofrestru fel etholwr na byw yn yr etholaeth neu'r ranbarth y mae am sefyll ynddi/ynddo.

A oes unrhyw reolau sy'n atal ymgeisydd rhag sefyll?

Mae'r rheolau ar gyfer sefyll etholiad a'r anghymwysiaid sy'n gymwys yn gymhleth. Ceir rhagor o wybodaeth yn [Rhan 1 o ganllawiau'r Comisiwn ar gyfer ymgeiswyr](#). Gallwch hefyd weld [Gorchymyn Anghymhwysu'r Senedd](#).

Sut mae rhywun yn dod yn ymgeisydd etholaethol yn etholiad y Senedd?

Rhaid i ddarpar ymgeiswyr etholaethol yn etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021 gyflwyno'r canlynol i'w Swyddog Canlyniadau erbyn 5pm ddydd Iau 8 Ebrill.

- ffurflenni enwebu, cyfeiriad cartref a chydsynio ag enwebiad wedi'u cwblhau
- ernes o £500.

Er mwyn sefyll ar ran plaid wleidyddol gofrestredig, rhaid bod y blaid wedi'i chofrestru ar [gofrestr o bleidiau gwleidyddol](#) y Comisiwn a bod wedi'i rhestru'n blaid y caniateir iddi gyflwyno ymgeiswyr yng Nghymru. Bydd angen i ymgeiswyr sy'n sefyll ar ran plaid gyflwyno'r canlynol hefyd:

- tystysgrif awdurdodi gan y blaid sy'n caniatáu iddynt ddefnyddio enw'r blaid, y disgrifiad a'r arwyddlun ar y papur pleidleisio
- cais ysgrifenedig i ddefnyddio un o arwyddluniau cofrestredig y blaid (dewisol).

Gall ymgeiswyr nad ydynt yn sefyll ar ran plaid ddefnyddio'r disgrifiad 'Independent' a/neu 'Annibynnol' neu ddim disgrifiad o gwbl, ac ni allant ddefnyddio arwyddlun.

I gael canllawiau manylach am sut i sefyll fel ymgeisydd etholaethol gweler [Rhan 2a o ganllawiau'r Comisiwn ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid](#).

Sut mae rhywun yn dod yn ymgeisydd rhanbarthol yn etholiad y Senedd?

Mae dau fath o ymgeisydd rhanbarthol yn etholiadau'r Senedd:

- y rheini sydd wedi'u henwebu gan blaid wleidyddol i sefyll ar restr y blaid
- y rhai sy'n sefyll fel ymgeiswyr unigol.

Os yw rhywun yn sefyll ar ran plaid wleidyddol gofrestredig yna gall Swyddog Enwebu'r blaid wleidyddol gofrestredig honno gyflwyno rhestr o hyd at 12 o ymgeiswyr i sefyll etholiad rhanbarthol. Rhaid i'r blaid restru'r ymgeiswyr yn y drefn y cânt eu hethol. Rhaid i ffurflen enwebu rhestr plaid, a ffurflen cydsynio ag enwebiad ar gyfer pob ymgeisydd ar restr plaid, ynghyd ag ernes o £500, gael eu cyflwyno i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol erbyn 5pm ar 8 Ebrill 2021.

Mae angen i ddarpar ymgeiswyr unigol yn etholiadau'r Senedd gyflwyno'r canlynol i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol erbyn 5pm ar 8 Ebrill 2021:

- ffurflenni enwebu, a ffurflen chydsynio ag enwebiad wedi'u cwblhau
- ernes o £500.

I gael canllawiau manylach am sut i sefyll fel ymgeisydd rhanbarthol gweler [Rhan 2b o'n canllawiau ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid](#).

A all rhywun sefyll fel ymgeisydd etholaethol a rhanbarthol?

Gall rhywun fod yn ymgeisydd ar gyfer etholaeth a rhanbarth, cyhyd â bod yr etholaeth o fewn y rhanbarth y mae'n sefyll ynddo. Er mwyn gwneud hyn, rhaid iddo sefyll dros yr un blaid yn y ddau etholiad, neu fod yn annibynnol yn y ddau. Os caiff ei ethol yn yr etholiad etholaethol, caiff enw'r ymgeisydd hwnnw ei anwybyddu wrth ddyrannu seddi rhanbarthol.

Ni all rhywun sefyll mewn mwy nag un etholaeth neu fwy nag un rhanbarth.

Pryd y byddwn yn gwybod pwy yw'r holl ymgeiswyr?

Bydd y Swyddog Canlyniadau perthnasol yn cyhoeddi'r rhestr lawn o ymgeiswyr sy'n sefyll. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd hyn yn digwydd erbyn 4pm ddydd Gwener 9 Ebrill.

Er mwyn canfod sut a ble y byddant yn cyhoeddi'r rhestr hon, bydd angen i chi gysylltu â hwy yn uniongyrchol. Caiff manylion cyswllt ar gyfer Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol a Swyddogion Canlyniadau Etholaethol eu cynnwys yn Atodiad A.

Ymgyrchu yn yr etholiad

Pryd y gall ymgeiswyr ddechrau ymgyrchu?

Gall ymgeiswyr ddechrau ymgyrchu unrhyw bryd. Nid oes rhaid iddynt aros am enwebiad dilys er mwyn datgan eu bod am sefyll etholiad, gofyn i bobl eu cefnogi na chyhoeddi deunydd ymgyrchu.

Mae terfynau gwariant etholiad yn gymwys o'r diwrnod ar ôl i berson ddod yn ymgeisydd yn swyddogol.

Beth y gall ymgeiswyr ei ddweud am ei gilydd yn ystod yr ymgyrch?

Fel sy'n wir am bob etholiad, mae'n anghyfreithlon gwneud datganiad ffug am gymeriad personol ymgeisydd er mwyn dylanwadu ar ganlyniad yr etholiad. Mae rheolau am ddifenwi hefyd yn gymwys i ddeunyddiau etholiad.

Gall yr heddlu ymchwilio i honiadau o'r drosedd etholiadol benodol o wneud datganiad ffug. Mater i'r llysoedd sifil yw difenwi.

Fel sy'n wir am bob etholiad, nid oes gan y Comisiwn Etholiadol unrhyw rôl reoleiddiol mewn perthynas â chynnwys deunydd ymgyrchu na'r hyn y mae ymgeiswyr yn ei ddweud am ei gilydd. Serch hynny, rydym yn annog pob ymgyrchydd i ymgymryd â'i rôl hanfodol mewn ffordd gyfrifol a helpu i sicrhau bod yr ymgyrch yn dryloyw.

A oes unrhyw reolau etholiadol ynghylch deunyddiau ymgyrchu?

Yn ôl y gyfraith, rhaid i ymgeiswyr, pleidiau ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ddefnyddio 'argraffnodau' ar eu holl ddeunydd ymgyrchu argraffedig. Mae argraffnod yn cynnwys enw a chyfeiriad yr argraffydd a'r hyrwyddwr (y sawl a awdurdododd i'r deunydd gael ei argraffu). Rhaid iddo gael ei gynnwys ar bob deunydd argraffedig fel posteri, hysbyslenni a thafleini. Rhaid i hyn ddigwydd fel y gall etholwyr fod yn glir ynghylch ffynhonnell y deunydd ymgyrchu. Mae'n drosedd peidio â chynnwys argraffnod ar ddeunydd etholiadol argraffedig.

Er nad yw'n ofyniad cyfreithiol, mae'r Comisiwn Etholiadol yn argymhell y dylai ymgeiswyr, pleidiau ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau, lle y bo'n bosibl, gynnwys argraffnod ar eu deunyddiau electronig (e.e. gwefannau, negeseuon e-bost a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol). Mae angen i bleidleiswyr wybod pwy sy'n eu targedu â negeseuon gwleidyddol ar-lein ac rydym wedi galw am newid yn y gyfraith.

A all ymgeiswyr weld y gofrestr etholiadol?

Pan fydd rhywun yn dod yn ymgeisydd, bydd ganddo'r hawl i gael copi, am ddim, o'r gofrestr etholiadol lawn a rhestrau o'r bobl sy'n pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy (rhestrau'r pleidleiswyr absennol) ar gyfer yr ardal gyfan y mae'n ymladd yr etholiad ynddi.

Dim ond i'w helpu i gwblhau eu ffurflen enwebu, i ymgyrchu ac i gadarnhau bod y rhoddion a gânt yn dod o ffynhonnell a ganiateir y gall ymgeiswyr ddefnyddio'r gofrestr etholiadol lawn.

Ni ddylai ymgeiswyr ryddhau unrhyw fanylion sy'n ymddangos yn y gofrestr etholiadol. Nid yw hyn yn gymwys i fanylion sy'n ymddangos ar y gofrestr agored, sydd ar werth yn gyffredinol.

Terfynau gwariant a rheolau ar dderbyn rhoddion

Y cyfnod a reoleiddir

Beth yw'r cyfnod a reoleiddir ar gyfer etholiadau'r Senedd?

Mae'r cyfnod a reoleiddir ar gyfer ymgeiswyr etholaethol a rhanbarthol annibynnol yn dechrau ar y diwrnod ar ôl i rywun ddod yn ymgeisydd yn swyddogol ac yn dod i ben ar y diwrnod pleidleisio, sef 6 Mai 2021. Y dyddiad cynharaf y gall rhywun ddod yn ymgeisydd

yn swyddogol yw 21 diwrnod cyn yr etholiad, a rhaid i hyn ddigwydd erbyn diwedd y cyfnod enwebu fan bellaf (5pm ddydd Iau 8 Ebrill). Daw gwariant ar ymgeiswyr rhestr plaid ranbarthol o dan reolau gwariant pleidiau.

Gwariant

Faint y gall ymgeiswyr ei wario ar eu hymgyrchoedd etholiadol?

Nodir y terfynau gwariant ar gyfer etholiadau'r Senedd isod. Cyfrifir y terfyn gwariant i ymgeiswyr etholaethol ac ymgeiswyr rhanbarthol annibynnol drwy adio swm sylfaenol a swm atodol amrywiadwy, sy'n ystyried nifer yr etholwyr cofrestredig yn yr etholaeth neu'r rhanbarth lle mae'r ymgeisydd yn sefyll etholiad.

Math o ymgeisydd	Swm penodedig	Swm amrywiadwy
Ymgeisydd etholaethol	£8,700	6c fesul etholwr cofrestredig mewn etholaeth fwrdeistref, neu 9c fesul etholwr seneddol cofrestredig mewn etholaeth sirol
Ymgeisydd rhanbarthol annibynnol	Dd/G	Cyfanswm y terfyn uchaf ar gyfer pob etholaeth yn y rhanbarth.
Ymgeisydd rhestr plaid ranbarthol	y blaid sy'n cofnodi ac yn rhoi gwybod am wariant a rhoddion ymgyrch, a bydd unrhyw wariant yn cyfrif tuag at derfyn gwariant y blaid.	Caiff gwariant ei gynnwys yn nherfyn gwariant y blaid (gweler Adran B)
Ymgeisydd deuol annibynnol	£8,700	6c fesul etholwr cofrestredig mewn etholaeth fwrdeistref, neu 9c fesul etholwr seneddol cofrestredig mewn etholaeth sirol. Gall hefyd

		wario cyfanswm y terfyn uchaf ar gyfer pob etholaeth yn y rhanbarth.
Ymgeisydd deuol plaid	£8,700 bydd yr holl wariant ymgyrchu ar ymgeiswyr rhestr plaid ranbarthol yn wariant ar y blaid, a rhaid i'r blaid roi gwybod amdano	6c fesul etholwr cofrestredig mewn etholaeth fwrdeistref, neu 9c fesul etholwr seneddol cofrestredig mewn etholaeth sirol. Caiff gwariant ar hyrwyddo'r rhestr plaid ei gynnwys yn nherfyn gwariant y blaid (gweler adran B)

Pa weithgareddau sy'n cyfrif tuag at y terfyn gwariant?

Mae gwariant ymgeisydd yn cynnwys costau:

- hysbysebu o unrhyw fath, fel posteri, hysbysebion mewn papurau newydd, gwefannau neu'r cyfryngau cymdeithasol
- deunydd digymell a anfonir at bleidleiswyr, fel llythyrau, taflenni neu negeseuon e-bost na chânt eu hanfon mewn ymateb i ymholiadau penodol
- costau cludiant, fel ceir wedi'u llogi neu gludiant cyhoeddus i'r ymgeisydd neu ymgyrchwyr yr ymgeisydd
- cyfarfodydd cyhoeddus
- costau staff, fel cyflog asiant, neu staff sydd wedi'u secondio i ymgeisydd
- adeiladau, fel swyddfa'r ymgyrch
- costau gweinyddol, fel biliau ffôn, deunydd ysgrifennu, llungopiâu a'r defnydd o gronfeydd data

Ymhlith y gweithgareddau nad ydynt yn cyfrif mae:

- unrhyw beth sy'n ymddangos mewn papur newydd neu ar sianel ddarlledu drwyddedig, ac eithrio hysbysebion
- costau y gellir eu priodoli'n rhesymol i anabledd yr ymgeisydd
- cyfleusterau a ddefnyddir am fod gan yr ymgeisydd yr hawl i wneud hynny fel ymgeisydd, fel ystafell gyhoeddus ar gyfer cyfarfod
- amser gwirfoddolwyr gan gynnwys amser a dreulir gan staff nad yw'r ymgeisydd yn eu talu amdano
- y defnydd o brif gartref rhywun, a ddarperir am ddim

- y defnydd o gar personol rhywun neu ddull cludiant arall, a gaffaelwyd yn bennaf at ddefnydd personol y person hwnnw ac a ddarperir am ddim
- y defnydd o gyfarpar cyfrifiadurol neu argraffu rhywun, a gaffaelwyd yn bennaf at ddefnydd personol y person hwnnw ac a ddarperir am ddim
- ernes ymgeisydd
- costau postio sy'n gysylltiedig â'r anerchiad etholiadol am ddim
- costau rhesymol sy'n gysylltiedig â chyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg neu i'r gwrthwyneb

Pwy sy'n gyfrifol am wariant ymgeisydd?

Cyfrifoldeb asiant yr ymgeisydd (neu'r ymgeisydd, os yw'n gweithredu fel ei asiant ei hun) yw cadw cofnod llawn a chywir o wariant. Dylai'r ymgeisydd a'r asiant sicrhau eu bod yn deall y rheolau a bod pob gwariant wedi'i awdurdodi a'i gofnodi'n gywir. Rhaid i'r ymgeisydd a'r asiant wneud datganiad bod yr hyn a gofnodir ganddynt yn gywir. Mae gwneud datganiad anwir yn drosedd.

Rhoddion

Beth sy'n cyfrif fel rhodd?

Mae rhodd yn cynnwys arian, nwyddau, eiddo neu wasanaethau a roddir i ymgeisydd, am ddim neu ar delerau anfasnachol, ac sy'n werth dros £50.

Nid ystyrir bod unrhyw beth sy'n £50 neu lai yn rhodd.

Pwy all roi rhoddion i ymgeiswyr?

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod unrhyw rodd a dderbynnir sy'n werth mwy na £50 yn dod o ffynhonnell a ganiateir. Mae hyn yn gymwys i roddion arian parod a rhoddion mewn da.

Rhaid i roddion nad ydynt yn dod o ffynhonnell a ganiateir gael eu dychwelyd i'r rhoddwr o fewn 30 diwrnod. Ar ôl hynny, gall y rhodd gael ei fforffedu.

Diffinnir rhoddwyr a ganiateir yn y DU fel:

- unigolyn ar un o gofrestrau etholiadol y DU, gan gynnwys etholwyr tramor
- plaid wleidyddol sydd wedi'i chofrestru ym Mhrydain Fawr
- cwmni sydd wedi'i gofrestru yn y DU ac sy'n gwmni corfforedig yn y DU ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- undeb llafur sydd wedi'i gofrestru yn y DU
- cymdeithas adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU

- partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi'i chofrestru yn y DU ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- cymdeithas lesiant sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- cymdeithas anghorfforedig sydd wedi'i lleoli yn y DU ac sy'n cynnal busnes neu weithgareddau eraill yn y DU yn gyfan gwbl neu'n bennaf ac sydd â'i phrif swyddfa yn y DU

Ymgyrchu gan bleidiau gwleidyddol

Y cyfnod a reoleiddir

Pryd mae'r rheolau ar wariant ar ymgyrchu yn berthnasol i bleidiau gwleidyddol yn yr etholiadau hyn?

Mae'r cyfnod a reoleiddir ar gyfer etholiad y Senedd yn 2021 yn dechrau ar 6 Ionawr 2021 ac yn dod i ben ar y diwrnod pleidleisio, sef 6 Mai 2021.

Beth yw'r terfyn gwariant ar gyfer pleidiau?

Mae gan bleidiau gwleidyddol uchafswm terfyn gwariant o £600,000 os ydynt yn ymladd etholiad ym mhob etholaeth a rhanbarth. Mae 40 o etholaethau yng Nghymru a phum rhanbarth. Seilir terfyn gwariant plaid ar derfyn o £10,000 fesul etholaeth y mae'n ymladd etholiad ynddi a £40,000 ar gyfer pob rhanbarth. Mae'r terfyn gwariant yn derfyn cenedlaethol, sy'n golygu nad oes rhaid i bleidiau briodoli eu gwariant rhwng etholaethau a rhanbarthau.

Bydd plaid yn cyfrifo ei gwariant drwy weithio allan faint o etholaethau a rhanbarthau y mae'n eu hysladd yn etholiad y Senedd, a lluosir niferoedd hyn â'r terfyn gwariant ar gyfer yr etholaeth a/neu'r rhanbarth.

I gael rhagor o wybodaeth am derfynau gwariant pleidiau, gweler ein [canllawiau ar gyfer pleidiau gwleidyddol sy'n ymgyrchu yn etholiad y Senedd 2021](#).

Pa weithgareddau sy'n cyfrif fel gwariant?

Ymhlith y gweithgareddau sy'n cyfrif fel gwariant ar ymgyrchu mae:

- hysbysebu o unrhyw fath, er enghraifft, baneri stryd, gwefannau neu fideos YouTube

- deunydd a anfonwyd at bleidleiswyr yn ddigymell. Er enghraifft, llythyrau neu daflenni a anfonir nad ydynt mewn ymateb i ymholiadau penodol
- y maniffesto a dogfennau eraill sy'n nodi polisiâu plaid
- ymchwil i'r farchnad neu ddulliau eraill o ganfod sut mae pobl yn bwriadu pleidleisio
- cynadleddau i'r wasg neu ddelio â'r cyfryngau mewn ffyrdd eraill
- raliâu a digwyddiadau, gan gynnwys cost presenoldeb pobl, ac unrhyw nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau a ddarperir
- cludiant mewn cysylltiad â rhoi cyhoeddusrwydd i'r ymgyrch.

Os bydd gan blaid yr hawl i drefnu darllediad etholiadol plaid yna rhaid i'r costau cynhyrchu gael eu cynnwys fel gwariant ar ymgyrchu. Nid oes rhaid cynnwys gwerth yr amser ar yr awyr.

Os oes gan blaid ymgeiswyr ar restr ranbarthol, bydd gwariant ar ymgyrchu'r blaid hefyd yn cynnwys gwariant ar weithgareddau i hyrwyddo'r ymgeiswyr rhestr plaid.

Mae'n cynnwys:

- eitemau neu wasanaethau a brynwyd cyn i'r cyfnod a reoleiddir ddechrau, ond a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfnod hwnnw
- eitemau neu wasanaethau a roddwyd i'r blaid am ddim neu am ostyngiad anfasnachol o fwy na 10%.

Mae ymgeiswyr etholaeth plaid sy'n sefyll etholiad mewn etholaeth yn gyfrifol am eu gwariant eu hunain ar ymgyrchu. Bydd gwariant ar hyrwyddo eu hymgeisyddiaeth yn yr etholaeth yn cyfrif tuag at eu terfyn gwariant ymgeisydd eu hunain. Os bydd ymgeisydd plaid yn sefyll mewn etholaeth a rhanbarth, dim ond y gwariant ar hyrwyddo'r ymgeisydd yn y rhanbarth fydd yn cyfrif tuag at derfyn gwariant y blaid.

Beth nad yw'n cyfrif fel gwariant?

Ymhlith y gweithgareddau nad ydynt yn cyfrif fel gwariant ar ymgyrchu mae:

- costau staff parhaol, cyfnod penodol neu dros dro lle mae gan yr aelod o staff gontract cyflogaeth uniongyrchol â'r blaid
- amser gwirfoddolwyr
- costau rhedeg swyddfa, heblaw am gostau sy'n uwch nag arfer oherwydd gwaith ymgyrchu, fel biliau ffôn
- costau teithio, bwyd a llety pobl tra byddant yn ymgyrchu, oni bai eu bod yn cael eu had-dalu.
- treuliau a delir o arian cyhoeddus, er enghraifft, costau diogelwch ar gyfer ymweliadau VIP
- deunydd a anfonir at eich aelodau yn unig

- cynadleddau'r plaid
- cylchlythyrau lleol am gynrychiolwyr etholedig neu ddarpar ymgeiswyr
- unrhyw beth y mae ymgeisydd yn ei ddatgan yn briodol ar ei ffurflen gwariant
- ernesau ymgeiswyr rhestr plaid ranbarthol
- costau postio sy'n ymwneud â'r anerchiad etholiadol i hyrwyddo'r ymgeiswyr plaid neu'r ymgeiswyr plaid rhanbarthol
- unrhyw gostau rhesymol sy'n gysylltiedig â chyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg neu i'r gwrthwyneb. Er enghraifft, cyflogi cyfieithydd i gyfieithu deunydd ymgyrchu o'r Saesneg i'r Gymraeg
- costau rhesymol y gellir eu priodoli i anabledd a all fod gan ymgeisydd. Mae'r eithriad hwn yn gymwys i unrhyw gostau yr eir iddynt gan neu ar ran unrhyw fath o ymgeisydd, gan gynnwys ymgeiswyr rhestr plaid ranbarthol. Er enghraifft, y costau sy'n gysylltiedig â darparu dogfennaeth mewn braille i ymgeisydd rhestr plaid sydd ag anabledd golwg.

A oes terfyn ar roddion y gall plaid wleidyddol eu derbyn yn y cyfnod cyn etholiadau'r Senedd?

Nac oes. Fodd bynnag, dim ond o ffynhonnell a ganiateir y gall pleidiau dderbyn rhoddion gwerth mwy na £500 tuag at eu hymgyrch.

I gael rhagor o wybodaeth am roddion, gan gynnwys canllawiau ar yr hyn sy'n ffynhonnell a ganiateir, gweler ein [trosolwg o roddion i bleidiau gwleidyddol](#).

Rheolau ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau

Pa sefydliadau neu unigolion a gaiff eu dosbarthu fel ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn etholiadau'r Senedd?

Unigolion neu sefydliadau yw ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy'n ymgyrchu yn y cyfnod cyn etholiadau, ond nad ydynt yn sefyll fel pleidiau gwleidyddol nac ymgeiswyr.

Pryd mae'r cyfnod a reoleiddir?

Caiff gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir ei reoleiddio yn y cyfnod cyn etholiadau 2021 yng Nghymru.

Ar gyfer ymgyrchoedd cyffredinol, mae'r cyfnod a reoleiddir ar gyfer etholiad y Senedd yn 2021 yn dechrau ar 6 Ionawr 2021 ac yn dod i ben ar y diwrnod pleidleisio, sef 6 Mai 2021.

Ar gyfer ymgyrchoedd lleol, mae'r cyfnod a reoleiddir yn dechrau ar y diwrnod ar ôl i'r person y mae rhywun yn ymgyrchu drosto neu yn ei erbyn ddod yn ymgeisydd yn swyddogol, ac yn dod i ben ar y diwrnod pleidleisio, sef 6 Mai 2021.

Pa fathau o ymgyrchoedd sydd gan rai nad ydynt yn bleidiau?

Mae dau fath o ymgyrch gan rai nad ydynt yn bleidiau, sef:

- **Ymgyrchoedd lleol:** ymgyrchoedd gan rai nad ydynt yn bleidiau dros neu yn erbyn un neu fwy o ymgeiswyr mewn etholaeth, ward neu ardal etholiadol arall benodol.
- **Ymgyrchoedd cyffredinol:** ymgyrchoedd gan rai nad ydynt yn bleidiau o blaid neu yn erbyn plaid wleidyddol, neu gategoriâu penodol o ymgeisydd, gan gynnwys ymgyrchoedd ar bolisiâu neu faterion sydd â chysylltiad agos â phlaid benodol neu gategori o ymgeiswyr (er enghraifft, ymgeiswyr mewn grŵp oedran penodol).

Ar gyfer trosolwg o'r rheolau a rhagor o fanylion am y rheolau ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau, gweler ein [canllawiau ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn etholiadau'r Senedd](#).

Beth sy'n cyfrif fel gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir?

Caiff gwariant ar y gweithgareddau hyn ei reoleiddio, os mai bwriad y gweithgareddau yw dylanwadu ar bleidleiswyr i bleidleisio dros neu yn erbyn pleidiau gwleidyddol neu gategoriâu o ymgeiswyr, gan gynnwys pleidiau gwleidyddol neu gategoriâu o ymgeiswyr sydd o blaid neu yn erbyn polisiâu neu faterion penodol:

- cynadleddau i'r wasg neu ddigwyddiadau eraill i'r cyfryngau a drefnir ganddynt
- cludiant mewn cysylltiad â rhoi cyhoeddusrwydd i'r ymgyrch

Dim ond os yw'r gweithgareddau hefyd wedi eu hanelu at y cyhoedd, neu wedi eu gweld neu eu clywed ganddynt, neu yn ymwneud â hwy y caiff gwariant ar y gweithgareddau canlynol ei reoleiddio. Mae hyn yn gymwys i'r canlynol:

- cynhyrchu neu gyhoeddi deunydd etholiad
- canfasio ac ymchwil i'r farchnad (gan gynnwys y defnydd o fanciau ffôn)
- raliâu a digwyddiadau cyhoeddus eraill

Caiff y gwariant ar unrhyw rai o'r gweithgareddau hyn ei reoleiddio os gellir ystyried yn rhesymol mai bwriad y gweithgarwch yw dylanwadu ar bleidleiswyr i bleidleisio dros neu

yn erbyn plaid wleidyddol, neu gategoriâu o ymgeiswyr, gan gynnwys ymgyrchoedd ar bolisiau neu faterion sy'n gysylltiedig iawn â phlaid benodol neu gategori o ymgeiswyr.

Beth yw'r terfynau gwariant ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yng Nghymru?

Ymgyrchoedd cyffredinol:

Bydd y terfyn gwariant ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn dibynnu ar b'un a ydynt yn cofrestru â'r Comisiwn Etholiadol fel ymgyrchydd cofrestredig nad yw'n blaid.

Heb gofrestru	£10,000 yng Nghymru
Wedi cofrestru fel ymgyrchydd nad yw'n blaid	£30,000 yng Nghymru

Ymgyrchoedd lleol:

Mae terfyn o £500 ar gyfer ymgyrchoedd o blaid neu yn erbyn ymgeisydd etholaeth a therfyn o £1,000 ar gyfer ymgyrchoedd o blaid neu yn erbyn ymgeisydd rhanbarthol annibynnol. Daw ymgyrchoedd o blaid neu yn erbyn ymgeisydd rhestr plaid o dan y rheolau ymgyrchu cyffredinol.

Pwy all gofrestru â'r Comisiwn Etholiadol fel ymgyrchydd nad yw'n blaid?

Dim ond y mathau canlynol o unigolion neu sefydliadau a all gofrestru a dod yn ymgyrchydd cofrestredig nad yw'n blaid:

- unigolyn sydd wedi'i gofrestru ar un o gofrestrau etholiadol y DU, neu sy'n preswyllo yn y DU
- plaid wleidyddol sydd wedi'i chofrestru yn y DU (gan gynnwys 'pleidiau llai')
- cwmni sydd wedi'i gofrestru yn y DU ac sy'n gwmni corfforedig yn y DU ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- undeb llafur sydd wedi'i gofrestru yn y DU
- cymdeithas adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi'i chofrestru yn y DU ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- cymdeithas lesiant, diwydiannol, darbodus neu adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- cymdeithas anghorfforedig sydd wedi'i lleoli yn y DU ac sy'n cynnal y rhan fwyaf o'i busnes neu weithgareddau eraill yn y DU – corff corfforedig drwy Siarter Frenhinol
- sefydliad corfforedig elusennol yn y DU

- partneriaeth Albanaid sy'n cynnal busnes yn y DU.

Beth a ystyrir yn rhodd i ymgyrchydd nad yw'n blaid?

Rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn bleidiau sicrhau y dilynir y rheolau ar roddion. Rhodd yw arian, nwyddau, eiddo neu wasanaethau â gwerth dros £500 ac fe'i rhoddir:

- tuag at eu gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir
- heb godi tâl neu ar delerau anfasnachol

Nid yw unrhyw beth sydd â gwerth o £500 neu lai yn rhodd.

Gan bwy y gall ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau dderbyn rhoddion?

Dim ond o ffynhonnell a ganiateir y gall ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau dderbyn rhoddion.

Ffynhonnell a ganiateir yw:

- unigolyn sydd wedi'i gofrestru ar un o gofrestrau etholiadol y DU, gan gynnwys etholwyr tramor a'r rhai sy'n gadael cymynroddion
- cwmni sydd wedi'i gofrestru yn y DU ac sy'n gwmni corfforedig yn y DU ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- undeb llafur sydd wedi'i gofrestru yn y DU
- cymdeithas adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi'i chofrestru yn y DU ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- cymdeithas lesiant sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- cymdeithas anghorfforedig sydd wedi'i lleoli yn y DU ac sy'n cynnal busnes neu weithgareddau eraill yn y DU.

Pleidleiswyr

Cofrestru i bleidleisio

Pwy all bleidleisio yn etholiadau'r Senedd?

Gall person bleidleisio yn etholiadau'r Senedd os yw wedi cofrestru i bleidleisio yng Nghymru, yn 16 oed neu drosodd ar ddydd Iau 6 Mai ac:

- yn ddinesydd Prydeinig neu Wyddelig, neu
- yn ddinesydd o'r Gymanwlad sydd â chaniatâd i aros yn y DU, neu nad oes angen caniatâd o'r fath arno/arni, neu
- yn ddinesydd un o wledydd yr Undeb Ewropeaidd, neu
- yn ddinesydd tramor cymwys sydd â chaniatâd i ddod i mewn i'r DU neu aros ynddi, neu nad oes angen caniatâd o'r fath arno/arni

Ceir rhagor o wybodaeth am gymhwysedd ar ein gwefan yn

<https://www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/pleidleisiwr>.

Beth yw'r dyddiad cau ar gyfer cofrestru?

Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i gofrestru yw canol nos, nos Lun 19 Ebrill 2021.

Beth yw'r dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy?

Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais bost yw 5pm ddydd Mawrth 20 Ebrill 2021.

Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy, heblaw mewn argyfwng, yw 5pm ddydd Mawrth 27 Ebrill 2021.

Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy o ganlyniad i argyfwng yw 5pm ddydd Iau 6 Mai 2021.

Sut y gall rhywun gofrestru i bleidleisio?

Gall pleidleiswyr fynd ar-lein i gofrestru i bleidleisio yn www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio.

Gall pobl wneud cais drwy gwblhau ffurflen gofrestru bapur o hyd os oes well ganddynt.

Gallant gysylltu â'u swyddfa cofrestru etholiadol leol i ofyn am ffurflenni neu gallant eu lawrlwytho o [wefan Llywodraeth y DU](#).

Newidiadau i'r etholfraint yng Nghymru

Yn sgil cyflwyno Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020, gall unrhyw un sy'n 16 oed neu drosodd ar y diwrnod pleidleisio bleidleisio yn etholiadau'r Senedd 2021. Mae hyn yn cynnwys dinasyddion tramor cymwys. Dinesydd tramor cymwys yw rhywun sydd â chaniatâd i ddod i mewn i'r DU neu aros ynddi, neu nad oes angen caniatâd o'r fath arno/arni.

A all rhywun gofrestru mewn dau gyfeiriad gwahanol?

Mewn rhai achosion, gall pleidleiswyr fod yn gymwys i gofrestru mewn dau gyfeiriad gwahanol, er enghraifft, os ydynt yn berchen ar ddau gartref neu os ydynt yn fyfyrwr sy'n byw oddi cartref. Y Swyddog Cofrestru Etholiadol lleol fydd yn penderfynu a fydd rhywun yn gymwys i gofrestru. Fodd bynnag, mae'n drosedd pleidleisio ddwywaith yn yr un etholiad.

Sut mae aelodau o'r lluoedd arfog yn cofrestru ac yn pleidleisio?

Gall aelodau o'r lluoedd arfog a'u gwŷr neu wragedd neu bartneriaid sifil, sy'n gwasanaethu yn y DU neu dramor, gofrestru naill ai yn eu cyfeiriad cartref neu yn eu barics yn y ffordd arferol, neu fel 'pleidleisiwr yn y lluoedd arfog'. Bydd pleidleiswyr o'r lluoedd arfog yn llenwi datganiad y lluoedd arfog er mwyn sicrhau y gallant gofrestru pan fyddant oddi cartref ar ddyletswydd.

A all carcharorion bleidleisio?

Gall carcharorion remand (y rhai nad ydynt wedi cael eu colfarnu na'u dedfrydu) bleidleisio. Ni all carcharorion euog sydd wedi cael eu cadw yn y ddalfa oherwydd eu dedfryd bleidleisio.

Mewn rhai achosion prin, gall carcharorion a ryddhawyd ar drwydded dros dro fodloni'r meini prawf ar gyfer cofrestru i bleidleisio.

Ymwybyddiaeth y cyhoedd

Beth mae'r Comisiwn Etholiadol yn ei wneud i annog pobl i gofrestru i bleidleisio?

Bydd y Comisiwn yn cynnal dwy ymgyrch a fydd yn annog pleidleiswyr i gofrestru yng Nghymru rhwng 8 Mawrth a'r dyddiad cau ar gyfer cofrestru, sef 19 Ebrill.

Mae ymgyrch 'Oes 5 'da ti?' yn targedu pob etholwr ac yn ei annog i gymryd 5 munud allan o'i ddiwrnod i gofrestru i bleidleisio ar-lein, yn enwedig os yw wedi symud yn ddiweddar. Mae ymgyrch 'Croeso i'ch pleidlais' yn targedu'r rhai sydd newydd gael yr etholfraint yng Nghymru (pobl ifanc 16-17 oed a dinasyddion tramor cymwys) ac yn eu hannog i gofrestru a chymryd rhan mewn democratiaeth. Bydd hysbysebion ar gyfer y ddwy ymgyrch yn cael eu dangos drwy fideo ar alw, ar y radio, wrth chwilio ar-lein ac ar sianeli cymdeithasol, ac yn cael eu hategu gan weithgarwch cysylltiadau cyhoeddus ychwanegol.

Hefyd, caiff llyfryn gwybodaeth dwyieithog ar gyfer etholiadau'r Senedd a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd ei anfon i bob cartref yng Nghymru yn ystod yr wythnos yn dechrau 5 Ebrill. Bydd y llyfryn, sy'n cynnwys gwybodaeth allweddol am yr etholiadau a'r broses bleidleisio, ar gael mewn amrywiaeth o fformatau ac ieithoedd.



Pa adnoddau sydd ar gael i bobl ifanc?

Er mwyn adlewyrchu'r oedran pleidleisio newydd ar gyfer etholiadau'r Senedd, mae'r Comisiwn wedi llunio adnoddau llythrennedd gwleidyddol ar gyfer pobl ifanc 14-18 oed ac addysgwyr. Nod yr adnoddau yw helpu pobl ifanc i ddeall yr hyn y gallant bleidleisio drosto, yr hyn i'w ddisgwyl mewn etholiadau, a sut i fwrw eu pleidlais, er mwyn sicrhau y gallant deimlo'n hyderus yn cymryd rhan yn yr etholiadau sydd ar ddod a gwybod bod eu pleidlais yn cyfrif. Maent yn cynnwys fideos, cwisiau, llawlyfrau a chyflwyniadau PowerPoint, ac mae'r cyfan ar gael ar ein gwefan: www.comisiwnetholiadol.org.uk/dysgu.

Mae'r Comisiwn wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â Chomisiwn y Senedd ar gyfres o sesiynau hyfforddi'r hyfforddwr 'Pleidleisiau yn 16'. Mae'r sesiynau hyn [ar gael i'w harchebu ar-lein](#) gan addysgwyr sy'n ystyried cynnal eu sesiynau Pleidleisio yn 16 eu hunain.

Gall Swyddogion y Comisiwn hefyd gyflwyno nifer gyfyngedig o sesiynau rhithwir i ysgolion a grwpiau ieuenctid yng Nghymru cyn y dyddiad cau ar gyfer cofrestru. Gallwn gyflwyno sesiynau i bobl ifanc 14-18 oed o unrhyw allu, hyd at 30 yn y dosbarth. Gall ysgolion gwblhau'r [ffurflen hon](#) i drefnu sesiwn.

Gweithio mewn partneriaeth

Mae'r Comisiwn yn gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau partner ledled Cymru er mwyn cyrraedd pleidleiswyr lle na cheir lefelau cofrestru digonol neu bleidleiswyr sydd wedi ymddieithrio'n draddodiadol, yn ogystal â'r rhai sydd newydd gael yr etholfraint. Ymhlith ei bartneriaid ar hyn o bryd mae RNIB Cymru, Urdd Gobaith Cymru, Clybiau Bechgyn a Merched Cymru, Diverse Cymru, Cyngor Ffoaduriaid Cymru, a llawer mwy. Enghraifft ddiweddar o'n gwaith partneriaeth yw [blog ar y cyd ag RNIB Cymru](#) i nodi Diwrnod Rhyngwladol Pobl ag Anabledau.

Mae nifer o adnoddau ar gael i bartneriaid a fyddai'n hoffi rhannu ein gwybodaeth i bleidleiswyr a'n negeseuon cofrestru yn yr [adran ymgysylltu democrataidd](#) ar ein gwefan, gan gynnwys:

- asedau diogelwch gorsafoedd pleidleisio (posteri, graffeg gymdeithasol)
- Asedau 'Croeso i'ch pleidlais' (posteri, graffeg a chopi cymdeithasol, baneri ar gyfer y we, dogfen cwestiynau cyffredin i ddinasyddion tramor cymwys yn Arabeg, Wrddw, Pwyleg, Tsieineeg a Bengali)
- Asedau 'Oes 5 'da ti?' (posteri, graffeg gymdeithasol, baneri ar gyfer y we)
- templedi ar gyfer datganiad i'r wasg, cwestiynau cyffredin a llythyr i bobl sy'n gwarchod ar gyfer awdurdodau lleol
- [adnoddau llythrennedd gwleidyddol](#) ar gyfer addysgwyr a phobl ifanc.
- [cylchlythyr cofrestru i bleidleiswyr](#)

Gall unrhyw sefydliad a fyddai'n hoffi trafod gweithio mewn partneriaeth gysylltu â swyddfa'r Comisiwn yng Nghymru.

Y broses bleidleisio

Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi llunio [llawlyfr y cyfryngau](#) sy'n cynnwys gwybodaeth bellach am y ffordd y caiff y broses bleidleisio ei chynnal yn ystod pandemig COVID-19. Mae'r wybodaeth yn y llawlyfr hwnnw yn ategu'r wybodaeth a roddir yma.

Pryd y bydd gorsafydd pleidleisio yn agor?

Bydd pob gorsaf bleidleisio yn agor am 7am ac yn cau am 10pm.

Beth sy'n digwydd os bydd rhywun yn dal i sefyll mewn ciw yn aros i bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio am 10pm?

Bydd unrhyw bleidleisiwr sy'n cyrraedd yr orsaf bleidleisio cyn 10pm ac sy'n dal i aros i bleidleisio am 10pm **yn gallu pleidleisio**.

Pa systemau pleidleisio a ddefnyddir?

Mae'r Senedd yn cynnwys 40 o Aelodau etholaethol ac 20 o Aelodau rhanbarthol.

Caiff aelodau etholaethol eu hethol gan ddefnyddio'r system y cyntaf i'r felin.

Mae'r Swyddog Canlyniadau yn datgan mai'r ymgeisydd â'r nifer fwyaf o bleidleisiau yw'r enillydd a'i fod yn cael ei ethol i gynrychioli'r etholaeth.

Caiff aelodau rhanbarthol eu hethol gan ddefnyddio system aelodau ychwanegol.

Mae'r system aelodau ychwanegol yn fath o gynrychiolaeth gyfrannol. Mae hyn yn golygu, yn ogystal â'r 40 o Aelodau'r Senedd (ASau) etholaethol a gaiff eu hethol gan ddefnyddio'r system y cyntaf i'r felin, fod 20 o ASau rhanbarthol a gaiff eu hethol gan ddefnyddio'r system rhestr plaid. Mae pum rhanbarth etholiadol yng Nghymru â phob un yn ethol pedwar AS rhanbarthol.

Caiff aelodau rhanbarthol eu hethol gan ddefnyddio system rhestr plaid. Mae pob Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn hysbysu'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol am nifer y pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer pob plaid wleidyddol gofrestredig ac ymgeisydd unigol yn eu rhan hwy o'r rhanbarth, yn ogystal â manylion nifer y seddi etholaethol a enillwyd gan bob plaid wleidyddol gofrestredig.

Yna mae'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn adio cyfanswm yr holl bleidleisiau rhanbarthol o'r holl etholaethau yn ei ranbarth at ei gilydd. Mae hefyd yn adio cyfanswm y seddi etholaethol a enillwyd o fewn y rhanbarth gan bob plaid gofrestredig at ei gilydd.

Caiff nifer y pleidleisiau a fwriwyd yn y bleidlais ranbarthol ar gyfer pob plaid gofrestredig neu ymgeisydd unigol ei rhannu â nifer y seddi etholaethol a enillwyd, ac un ychwanegol.

Mae hyn yn caniatáu i bleidiau neu ymgeiswyr unigol nad ydynt wedi ennill unrhyw etholaethau neu nad ydynt wedi ymladd etholaeth gael eu cynnwys yng ngweddill y cyfrifiad.

Ar ôl gwneud y cyfrifiad hwnnw, y blaid â'r ffigur uchaf canlyniadol fydd yn ennill y sedd ranbarthol gyntaf. Er mwyn dyrannu'r ail, y drydedd a'r bedwaredd sedd ranbarthol, caiff y cyfrifiad ei ail-wneud, ond bob tro caiff unrhyw seddi ychwanegol a enillwyd eu hadio at y cyfrifiad.

Gelwir y dull hwn o gyfrifo yn system addasedig d'Hondt.

Sut y dylai pleidleiswyr gwblhau eu papur pleidleisio ar gyfer etholiadau'r Senedd?





Papur pleidleisio yr etholaeth

Bydd pleidleisiwr yn defnyddio'r papur pleidleisio hwn i bleidleisio dros ymgeisydd i gynrychioli ei etholaeth. Er mwyn pleidleisio, bydd angen iddo nodi croes (X) yn y blwch gyferbyn ag enw un ymgeisydd. Bydd yr ymgeisydd â'r nifer fwyaf o bleidleisiau yn dod yn Aelod o'r Senedd ar gyfer yr etholaeth honno.






Y papur pleidleisio rhanbarthol

Bydd pleidleisiwr yn defnyddio'r papur pleidleisio hwn i bleidleisio dros blaid neu ymgeisydd unigol i gynrychioli ei ranbarth. Er mwyn pleidleisio, rhaid iddo nodi croes (X) yn y blwch gyferbyn ag enw un blaid neu ymgeisydd unigol. Ym mhob rhanbarth, mae pleidiau ac ymgeiswyr unigol yn ennill seddi yn seiliedig ar y canlynol:

- nifer y pleidleisiau y maent yn eu derbyn yn y bleidlais ranbarthol hon,
- nifer y seddi etholaeth y mae pleidiau neu ymgeiswyr unigol yn eu hennill yn y rhanbarth.

Senedd Cymru election Ballot paper to elect the Member of the Senedd for theconstituency	Etholiad Senedd Cymru Papwr pleidleisio i ethol Aelod o'r Senedd ar gyfer etholaeth.....
Vote for only one candidate by putting a cross <input checked="" type="checkbox"/> in the box next to your choice	Pleidleiswch ar gyfer un ymgeisydd yn unig trwy roi croes <input checked="" type="checkbox"/> yn y blwch wrth ochr eich dewis
Candidate A - Ymgeisydd A Party A - Plaid A	 <input type="checkbox"/>
Candidate B - Ymgeisydd B Party B - Plaid B	 <input type="checkbox"/>
Candidate C - Ymgeisydd C Party C - Plaid C	 <input type="checkbox"/>
Candidate D - Ymgeisydd D Party D - Plaid D	 <input type="checkbox"/>
Candidate E - Ymgeisydd E Independent / Annibynnol	<input type="checkbox"/>
Candidate F - Ymgeisydd F Independent / Annibynnol	<input type="checkbox"/>
Candidate G - Ymgeisydd G Independent / Annibynnol	<input type="checkbox"/>

Enghraifft o bapur pleidleisio etholaeth

Senedd Cymru election Ballot paper to elect the Member of the Senedd for theregion	Etholiad Senedd Cymru Papwr pleidleisio i ethol Aelod o'r Senedd ar gyfer rhanbarth.....
Vote only once by putting a cross <input checked="" type="checkbox"/> in the box next to your choice	Pleidleiswch unwaith yn unig trwy roi croes <input checked="" type="checkbox"/> yn y blwch wrth ochr eich dewis
Bloggs Party	
1. Ali Barber 2. Dusty Boots 3. Earl Grey 4. Robin Hood 5. Mary Contrary	6. Blossom Tree 7. Roger James 8. August Caesar 9. Sierra Leone 10. Apple Orchard
 <input type="checkbox"/>	
Cromwell Party	
1. Terry Teller 2. Jane Doe 3. John Smith 4. Harper Graham 5. Benedict Eggs	6. Orion Belt 7. Anita Patel 8. Blu Sapphire 9. William Finn 10. Santa Valentine
 <input type="checkbox"/>	
Nightingale Party	
1. Charles Bucket 2. Kris Kringie 3. Hamish Soot 4. Pepper Pott 5. Susannah Salt	6. Basil Bush 7. Sunny Day 8. Rain Storm 9. April Showers 10. Winston Wonder
 <input type="checkbox"/>	
Pelican Party	
1. Michael Angelos 2. Suki Moon 3. May Day 4. River Deep 5. Dallas Cowboy	6. Victoria Line 7. Briana Spears 8. Sandy Shore 9. Roman Ruin 10. Edward Conquerer
 <input type="checkbox"/>	
Tudor Party	
1. Leif Fall 2. William Shakes 3. Grace Period 4. Coral Reef 5. Vincent Flowers	6. Jemima Duck 7. Lincoln President 8. Satsuma Kyoto 9. November Rain 10. Wendy Miller
 <input type="checkbox"/>	
Baker, Cupcake Independent	
<input type="checkbox"/>	

Enghraifft o bapur pleidleisio rhanbarthol

Pleidleisio'n bersonol

Gall pleidleiswyr cofrestredig fynd i'w gorsaf bleidleisio leol rhwng 7am a 10pm ddydd Iau 6 Mai i fwrw eu pleidlais. Dylai pleidleiswyr neilltuo digon o amser er mwyn sicrhau na fyddant yn colli'r cyfle i ddweud eu dweud.

- Cyn y diwrnod pleidleisio, anfonir cerdyn pleidleisio at bleidleiswyr sy'n cynnwys manylion am leoliad eu gorsaf bleidleisio.
- Dim ond yn yr orsaf bleidleisio a nodir ar y cerdyn hwn y gall pleidleiswyr bleidleisio.
- Bydd staff gorsafoedd pleidleisio wrth law i egluro'r papur(au) pleidleisio a sut i bleidleisio.

Nid oes angen i bleidleiswyr fynd â'u cerdyn pleidleisio gyda nhw i'r orsaf bleidleisio ond bydd gwneud hynny yn cyflymu'r broses.

Pleidleisio drwy'r post

Os na fydd pleidleiswyr am fynd i orsaf bleidleisio, neu os na fyddant yn gallu gwneud hynny, gallant wneud cais am bleidlais bost. Gall pleidleiswyr wneud cais am bleidlais bost ar gyfer etholiad penodol, cyfnod penodol o amser, neu ar gyfer pob etholiad. Er

mwyn pleidleisio drwy'r post, bydd angen i etholwyr cofrestredig wneud cais am bleidlais bost cyn 5pm ddydd Mawrth 20 Ebrill 2021.

- Caiff papurau pleidleisio drwy'r post eu hanfon yn uniongyrchol at bleidleiswyr tua wythnos cyn y diwrnod pleidleisio.
- Dylai pleidleiswyr gwblhau eu papurau pleidleisio a'u dychwelyd ar unwaith, er mwyn iddynt gyrraedd cyn 10pm ddydd Iau 6 Mai.
- Ni chaiff pleidleisiau fydd yn cyrraedd ar ôl 10pm ddydd Iau 6 Mai eu cyfrif. Yr unig eithriad yw os bydd rhywun mewn ciw mewn gorsaf bleidleisio am 10pm er mwyn dychwelyd pleidlais bost a gwblhawyd.
- Os na fydd pleidleiswyr yn caniatáu digon o amser i bostio eu pleidlais, gallant fynd â hi i orsaf bleidleisio yn eu hardal bleidleisio rhwng 7am a 10pm ar y diwrnod pleidleisio.
- Rhaid i bleidleiswyr hefyd gofio cwblhau'r datganiad pleidleisio drwy'r post – gyda'u llofnod a'u dyddiad geni neu ni chaiff eu pleidlais ei chyfrif.

Pleidleisio drwy ddirprwy

Gall pleidleiswyr gofrestru ar gyfer 'pleidlais drwy ddirprwy'. Mae hyn yn golygu eu bod yn gofyn i rywun y maent yn ymddiried ynddo bleidleisio ar eu rhan dros yr ymgeisydd y maent am bleidleisio drosto. Bydd angen iddynt gwblhau a llofnodi ffurflen a'i dychwelyd i'w swyddfa cofrestru etholiadol leol erbyn 5pm ddydd Mawrth 27 Ebrill 2021.

Pa ddarpariaethau a wneir i sicrhau bod y broses bleidleisio yn hygyrch i bleidleiswyr ag anableddau?

Mae'n ofyniad cyfreithiol darparu dyfais bleidleisio gyffyrddadwy ym mhob gorsaf bleidleisio. Mae'r dyfais hon yn galluogi rhywun sy'n ddall neu'n rhannol ddall i farcio'r papur pleidleisio ei hun, unwaith y bydd naill ai ei gydymaith neu'r Swyddog Llywyddu wedi darllen y manylion ar y papur pleidleisio iddo. Hefyd, rhaid arddangos fersiwn print bras o'r papur pleidleisio y tu mewn i'r orsaf bleidleisio er mwyn helpu pleidleiswyr sy'n rhannol ddall. Rhaid i gopïau llaw mwy o faint, a gaiff eu marcio fel 'sampl', fod ar gael hefyd i unrhyw un sydd eu hangen.

Mae'r Comisiwn yn darparu [canllawiau ar gyfer staff gorsafoedd pleidleisio](#) er mwyn eu helpu i sicrhau bod gorsafoedd pleidleisio yn hygyrch i bawb. Mae'r wybodaeth hon ar gael i staff sy'n cynnal yr etholiadau llywodraeth leol.

A all pleidleiswyr gymryd hunluniau neu ffotograffau eraill yn yr orsaf bleidleisio?

Mae'r gyfraith sy'n ymwneud â chael gwybodaeth mewn gorsafoedd pleidleisio a datgelu gwybodaeth o'r fath yn gymhleth. O ystyried y risg y bydd rhywun sy'n tynnu llun y tu

mewn i orsaf pleidleisio yn torri'r gyfraith o bosibl, p'un a yw hynny'n fwriadol ai peidio, ein cyngor yw na ddylid tynnu unrhyw luniau y tu mewn i orsafoedd pleidleisio.

A yw'n iawn i rywun dynnu llun o'i bleidlais bost a'i roi ar y cyfryngau cymdeithasol i ddangos sut mae wedi pleidleisio?

Caiff papurau pleidleisio drwy'r post eu trin yn wahanol mewn cyfraith etholiadol, o gymharu â phapurau pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio. Gall rhywun sy'n pleidleisio drwy'r post dynnu llun o'i bapur pleidleisio drwy'r post ei hun a'i gyhoeddi (yn cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol).

Fodd bynnag, er y gall yr unigolyn sy'n pleidleisio drwy'r post ei hun gyhoeddi'r wybodaeth, pe bai rhywun arall yn ei ddarbwylllo neu'n ei annog i rannu'r wybodaeth hon, byddai'n cyflawni trosedd. Os bydd unrhyw awgrymiadau neu honiadau y gallai hyn fod yn digwydd, dylai'r person sy'n gwneud y gŵyn hysbysu'r heddlu am hyn.

Y broses gyfrif

Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi llunio [llawlyfr y cyfryngau](#) sy'n cynnwys gwybodaeth bellach am sut y caiff y broses bleidleisio ei chynnal yn ystod pandemig COVID-19. Mae'r wybodaeth yn y llawlyfr hwnnw yn ategu'r wybodaeth a roddir yma.

Pwy sy'n gyfrifol am y broses gyfrif?

Bydd pob Swyddog Canlyniadau neu Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn penderfynu pryd y cynhelir y broses gyfrif, gan ystyried amgylchiadau lleol.

Pryd bydd y cyfrif yn dechrau?

Ym mis Ionawr, daeth Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru i gonsensws cenedlaethol ar amseru'r broses gyfrif ar gyfer etholiadau'r Senedd a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a fyddai'n galluogi pob awdurdod lleol yng Nghymru i wneud trefniadau effeithiol ar gyfer y cyfrif. Rhannwyd y wybodaeth hon â phleidiau, ymgeiswyr, asiantiaid a'r wasg, a gellir ei gweld [yma](#).

Erbyn hyn, mae'r Bwrdd wedi cynnal adolygiad arall o amseru'r broses gyfrif ac, yn dilyn trafodaeth â Swyddogion Canlyniadau, mae'n ymwybodol y gallai'r broses gyfrif gymryd mwy o amser mewn rhai achosion o ystyried y nifer llai o staff cyfrif sydd ar gael, maint y lleoliad sydd ar gael a'r cyfyngiadau o ran cadw pellter cymdeithasol oherwydd COVID-19.

Er mai'r bwriad o hyd yw cwblhau'r prosesau cyfrif etholaethol a rhanbarthol ddydd Gwener 7 Mai, bydd angen i'r Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol a'r Swyddogion Canlyniadau Etholaethol ystyried yn ofalus y cynnydd sy'n cael ei wneud yn ystod y dydd, gan benderfynu a ddylid gohirio'r gweithrediadau ai peidio a pharhau ar y dydd Sadwrn.

Rhaid i ymgeiswyr, asiantiaid a'r cyfryngau fod yn ymwybodol o'r cyfyngiadau hyn a bod yn amyneddgar a chydweithredu â'r Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol/Swyddogion Canlyniadau drwy gydol y gweithrediadau. Y flaenoriaeth o hyd yw sicrhau y caiff yr etholiadau eu cynnal mewn ffordd ddiogel ac effeithiol i bawb.

Pwy all fynychu'r cyfrif?

Yn ôl y gyfraith, mae gan y bobl ganlynol yr hawl i fod yn bresennol yn y cyfrif:

- y Swyddogion Canlyniadau/Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol perthnasol a'i staff
- ymgeiswyr ac un gwestai
- asiantiaid etholiad
- asiantiaid cyfrif

- cynrychiolwyr o'r Comisiwn Etholiadol
- arsylwyr achrededig
- unrhyw berson arall a gaiff ganiatâd gan y Swyddog Canlyniadau Lleol i fod yn bresennol

Bydd angen i bob Swyddog Canlyniadau neu Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol benderfynu ar y ffordd orau i reoli'r nifer y bobl sy'n mynychu'r dilysu a'r cyfrif yn seiliedig ar faint y lleoliad cyfrif ac effaith y mesurau pellhau cymdeithasol a fydd ar waith.

Rhaid i aelodau o'r cyfryngau a ffotograffwyr sydd am fod yn bresennol mewn cyfrif neu ffilmio mewn cyfrif gysylltu â'r Swyddog Canlyniadau Lleol perthnasol i ofyn am ganiatâd ymlaen llaw i fod yn bresennol yn y cyfrif ac adeg datgan y canlyniadau.

Sawl pleidlais a gafodd pob plaid yn etholiad diwethaf y Senedd?

Gallwch weld [gwybodaeth am ganlyniadau etholiadau blaenorol y Senedd](#) ar wefan y Comisiwn Etholiadol. Cewch adroddiadau gan y Comisiwn hefyd ar sut y cafodd yr etholiad ei gynnal.

Beth fydd yn digwydd gyda phapurau pleidleisio a ddifethwyd?

Unwaith y bydd cam dilysu'r cyfrif wedi'i gwblhau, caiff y papurau pleidleisio eu rhannu yn ôl ymgeisydd a chaiff unrhyw bapurau pleidleisio amheus eu nodi. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn cyflwyno dyfarniad ynghylch unrhyw bapurau pleidleisio amheus ym mhresenoldeb ymgeiswyr ac asiantiaid ac mae'r Comisiwn wedi rhoi canllawiau i'w helpu i wneud hyn.

Bydd y Swyddog Canlyniadau yn cyhoeddi sawl papur pleidleisio a wrthodwyd wrth gyhoeddi canlyniadau'r etholiad.

Caiff unrhyw bapurau pleidleisio yr ystyrir eu bod yn rhai 'da' yn y broses hon eu dychwelyd a'u dyrannu i'r ymgeisydd perthnasol.

Sut mae'r broses o agor pleidleisiau post yn rhan o'r broses?

Bydd staff etholiad yn agor pecynnau pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd hyd at y diwrnod pleidleisio ac ar y diwrnod ei hun, er mwyn cadarnhau'r dynodyddion personol ynddynt (dyddiad geni a llofnod y pleidleisiwr). Yn y sesiynau agor amlenni hyn, rhaid i'r papurau pleidleisio aros wyneb i lawr ac ni fydd staff etholiad yn cyfrif y pleidleisiau hyn tan ddiwedd y cyfnod pleidleisio.

A ellir herio'r canlyniad ar ôl iddo gael ei gyhoeddi?

Gall rhywun herio canlyniad etholiad drwy gyhoeddi deiseb etholiadol. Mae'n gam cyfreithiol a chaiff ei ddyfarnu gan farnwr mewn llys.

Gall deiseb gael ei chyflwyno gan:

- rywun sy'n honni ei fod yn ymgeisydd yn yr etholiad, neu
- bedwar unigolyn a bleidleisiodd fel etholwyr yn yr etholiad neu yr oedd ganddynt hawl i bleidleisio yn yr etholiad, heblaw am etholwyr a gofrestrwyd yn ddiennw

Fel arfer, rhaid cyflwyno deiseb yn etholiad y Senedd o fewn 21 diwrnod calendr ar ôl y diwrnod y cynhaliwyd yr etholiad. Gellir caniatáu rhagor o amser o dan amgylchiadau penodol.

Yn 2020, [argymhellodd Comisiynau'r Gyfraith y dylid moderneiddio'r broses o herio etholiadau](#) er mwyn ei gwneud yn haws i bleidiau ei deall a'i defnyddio, ac y dylai barnwyr gael y pŵer, mewn achosion priodol, i gyfyngu ar y costau posibl i'r rhai sy'n herio. Mae'r Comisiwn Etholiadol yn cefnogi'r argymhelliad hwn. Ceir rhagor o wybodaeth am herio canlyniad etholiad yn [Rhan 6 o ganllawiau'r Comisiwn Etholiadol ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid](#).

Twyll Etholiadol

Mae Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn nodi nifer o droseddau sy'n ymwneud â thwyll etholiadol. Byddai'r heddlu perthnasol ar gyfer yr ardal y cynhelir yr etholiad ynnddi yn ymchwilio i unrhyw honiadau fod trosedd wedi cael ei chyflawni.

Mae gan bob heddlu bwynt cyswllt unigol (a elwir yn SPOC) i arwain ar droseddau sy'n gysylltiedig ag etholiadau, a fydd yn rhoi cyngor i swyddogion yr heddlu lleol. Gall pobl hefyd ddewis cysylltu â Taclo'r Tacle yn ddiennw ar 0800 555 111.

Dylai unrhyw un, gan gynnwys ymgeiswyr, gwleidyddion ac aelodau o'r cyhoedd, sydd â thystiolaeth bod twyll etholiadol yn digwydd, roi gwybod i'r heddlu ar unwaith, gan ddefnyddio'r rhif 101 ar gyfer adegau pan nad oes argyfwng, oni fydd y drosedd wrthi'n cael ei chyflawni.

Beth yw'r troseddau sy'n gysylltiedig â thwyll etholiadol?

- **Cambersonadu** – Pan fydd unigolyn yn pleidleisio fel rhywun arall (boed yn rhywun byw neu farw neu'n rhywun ffug), naill ai drwy'r post neu mewn gorsaf bleidleisio, yn bersonol neu fel dirprwy.
- **Dylanwad gormodol / ymddygiad bygythiol** – Mae person yn euog o ddylanwad gormodol os yw'n ceisio dylanwadu ar y ffordd y mae rhywun yn pleidleisio drwy wneud y canlynol:
 - defnyddio neu fygwth defnyddio grym, trais neu ataliaeth
 - achosi neu fygwth achosi anaf, difrod, colled neu niwed
 - atal neu rwystro rhywun rhag arfer ei hawl i bleidleisio – hyd yn oed os na fydd yn llwyddo.
- **Llwgwobrwyo** – Mae person yn euog o lwgrwobrwyo os bydd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn cynnig unrhyw wobwr (gwobr ariannol neu wobwr arall) er mwyn ysgogi unrhyw bleidleisiwr i bleidleisio dros unrhyw ymgeisydd neu beidio â phleidleisio.
- **Tretio** – Mae person yn euog o dretio os bydd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, naill ai cyn, yn ystod neu ar ôl etholiad, yn cynnig bwyd, diod neu adloniant er mwyn dylanwadu'n llygredig ar unrhyw bleidleisiwr. Mae a wnelo tretio â bwriad llygredig – nid yw'n gymwys i letygarwch arferol.
- **Datganiadau ffug** – Mae'n drosedd gwneud neu gyhoeddi datganiad ffeithiau ffug am gymeriad personol neu ymddygiad ymgeisydd er mwyn effeithio ar ethol ymgeisydd mewn etholiad. Nid yw datganiadau anwir nad ydynt yn ymwneud â chymeriad personol neu ymddygiad ymgeisydd yn anghyfreithlon o dan gyfraith etholiadol, ond gellid eu hystyried yn enllibus neu'n athrodus. Mae'n drosedd gwneud datganiad ffug bwriadol ar bapur enwebu.

- **Troseddau sy'n ymwneud ag aml-bleidleisio a phleidleisio drwy ddirprwy** – Ceir amryw droseddau sy'n ymwneud ag aml-bleidleisio a phleidleisio drwy ddirprwy, gan gynnwys pleidleisio (boed yn bersonol, drwy'r post neu drwy ddirprwy) pan na chaniateir i chi wneud hynny a phleidleisio fwy nag unwaith yn yr un etholiad.
- **Gwybodaeth ffug mewn cysylltiad â chofrestru a phleidleisio absennol** – Mae'n drosedd darparu gwybodaeth gofrestru ffug i Swyddog Cofrestru Etholiadol. Mae hefyd yn drosedd darparu gwybodaeth ffug ar gyfer pleidlais bost neu bleidlais drwy ddirprwy.

Pa fesurau diogelu sydd ar waith i sicrhau ei bod yn ddiogel pleidleisio drwy'r post?

Rhaid i bleidleiswyr post ddarparu eu llofnod a'u dyddiad geni pan fyddant yn gwneud cais am bleidlais bost, a hefyd pan fyddant yn bwrw eu pleidlais bost. Caiff y ddau gofnod eu gwirio. Os na fydd y Swyddog Canlyniadau yn fodlon eu bod yn cyfateb, ni chaiff y papur pleidleisio ei gyfrif.

Atgyfnerthwyd y system ymhellach pan gyflwynwyd Cofrestriad Etholiadol Unigol yn 2014. Rhaid i unrhyw un sy'n gwneud cais i gofrestru i bleidleisio ddarparu ei rif Yswiriant Gwladol a'i ddyddiad geni yn gyntaf, cyn mynd ymlaen i ddarparu'r wybodaeth ychwanegol uchod os bydd am fwrw ei bleidlais drwy'r post.

Cyfrifoldebau am fynd i'r afael â thwyll etholiadol

Sut mae'r Comisiwn yn gweithio gyda phleidiau gwleidyddol i atal achosion o dwyll drwy bleidleisiau post?

Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi datblygu Cod Ymddygiad i ymgyrchwyr, sy'n gymwys i bleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr a'u cefnogwyr. Mae'n ymdrin â'r ffordd y caiff ceisiadau am bleidlais bost a phecynnau pleidleisio drwy'r post eu trin, ymddygiad y tu allan i orsafoedd pleidleisio a rhoi gwybod am honiadau o dwyll etholiadol. Yn benodol, mae'r Cod yn nodi na ddylai pleidiau, ymgeiswyr nac ymgyrchwyr wneud y canlynol:

- byth helpu i gwblhau papur pleidleisio – yn lle hynny, dylai ymgyrchwyr bob amser gyfeirio'r pleidleisiwr at staff y Swyddog Canlyniadau, a fydd o bosibl yn gallu trefnu ymweliad cartref neu roi cymorth yn yr orsaf pleidleisio.
- byth drin na chymryd unrhyw bapurau pleidleisio wedi'u cwblhau oddi wrth bleidleiswyr. Yn lle hynny, dylid annog pleidleiswyr i bostio eu pecyn pleidleisio drwy'r post eu hunain – fel arall, efallai y gall staff y Swyddog Canlyniadau drefnu iddo gael ei gasglu.

Nid yw'r gyfraith yn gwahardd ymgeiswyr, pleidiau nac ymgyrchwyr rhag trin pleidleisiau post. Rydym am weld newid yn y gyfraith er mwyn sicrhau nad yw ymgeiswyr, pleidiau

nac ymgyrchwyr yn trin ceisiadau wedi'u cwblhau am bleidlais absennol na phecynnau pleidleisio drwy'r post nac yn eu cymryd wrth bleidleiswyr.

Beth sy'n digwydd os bydd plaid wleidyddol yn torri'r Cod Ymddygiad?

Mae'r cod yn wirfoddol. Mae'r Comisiwn Etholiadol yn gofyn i bleidiau gwleidyddol ymchwilio i unrhyw achosion o dorri'r cod y rhoddwyd gwybod amdanynt a chymryd camau i sicrhau na fydd problemau'n codi eto. Mae hyn yn cynnwys cymryd camau disgyblu o bosibl yn erbyn eu haelodau.

Pwy sy'n gyfrifol am roi cynlluniau ar waith i ddelio â thwyll etholiadol?

Y Swyddog Canlyniadau ar gyfer pob ardal sy'n bennaf cyfrifol am wneud hyn. Mae'n gweithio'n agos gyda'r heddlu lleol.

Cyhoeddwyd [canllawiau ar blismona etholiadau](#) i gefnogi swyddogion yr heddlu a phwyntiau cyswllt unigol wrth iddynt roi cynlluniau ar waith i atal a chanfod twyll etholiadol yng Nghymru a Lloegr. Mae'r canllawiau hyn, sy'n adeiladu ar waith blaenorol gan y Comisiwn Etholiadol a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, bellach yn rhan o Arfer Proffesiynol Awdurdodedig y Coleg Plismona ar gyfer heddluoedd yng Nghymru a Lloegr.